Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gwasanaethau Cymdeithasol:

# Y fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2016



# Cynnwys

Cefndir 3

Ein poblogaeth 3

Fframwaith canlyniadau cenedlaethol y gwasanaethau cymdeithasol 3

Datganiad llesiant 4

Dangosyddion canlyniadau cenedlaethol 6

Adroddiadau blynyddol 7

Cysylltiadau â'r fframwaith mesur perfformiad ar gyfer awdurdodau lleol 8

Cysoni â fframweithiau, rhaglenni a strategaethau eraill Llywodraeth Cymru 8

Atodiad A: Crynodeb o'r canlyniadau llesiant cenedlaethol a'r dangosyddion canlyniadau cenedlaethol 10

Atodiad B: Gwybodaeth dechnegol am y dangosyddion canlyniadau cenedlaethol 15

OGL © Hawlfraint y Goron 2016 WG28853 ISBN digidol 978 1 4734 6724 8

# Cefndir

Yn 2011, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei dyheadau ar gyfer dyfodol gofal cymdeithasol yn 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu'[1]. Mae'r papur hwn yn rhoi fframwaith ar waith ar gyfer mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu gwasanaethau cymdeithasol yn y degawd nesaf a thu hwnt, ac yn amlinellu'r blaenoriaethau gweithredu.

O ran deddfwriaeth, ategir 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru' gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)[2] (y Ddeddf) a bydd hon yn darparu ar gyfer system a fydd yn canolbwyntio ar lesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth.

Bydd gofal a chymorth yn cael eu seilio ar y canlyniadau llesiant y mae pobl eisiau eu cyflawni, ac ar eu hawliau a'u cyfrifoldebau. Mae gan bawb, yn blant, oedolion a gofalwyr, yr hawl i fod yn rhan o benderfyniadau ynghylch eu gofal a'u cymorth. Bydd gweithio mewn partneriaeth yn allweddol ar gyfer sicrhau llesiant a lleihau anghenion pobl am ofal a chymorth.

# Ein poblogaeth

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu fframwaith canlyniadau cenedlaethol y gwasanaethau cymdeithasol. Fe'i lluniwyd i fodloni gofyniad yn y Ddeddf i ddisgrifio llesiant i bobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth, a darparu dull cyson o fesur llesiant.

Gall pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth, dderbyn gofal a chymorth gan eu hawdurdod lleol, yn y gymuned (oddi wrth eu teulu a ffrindiau, drwy fentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr, neu'r trydydd sector), neu'n uniongyrchol drwy'r sector annibynnol.

Mae'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer pawb sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth, eu teuluoedd a'u ffrindiau, a phob gwasanaeth sy'n cyflawni swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol o dan y Ddeddf; e.e. awdurdodau lleol, mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr, y trydydd sector a'r sector annibynnol.

# Fframwaith canlyniadau cenedlaethol y gwasanaethau cymdeithasol

**Amcanion allweddol y fframwaith canlyniadau cenedlaethol yw:**

- **Gosod cyfeiriad cenedlaethol i hyrwyddo llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth yng Nghymru.**

  Bydd newid pwyslais y ddarpariaeth, i hyrwyddo llesiant, yn rhoi ffocws i'r holl wasanaethau (statudol, trydydd sector a sector annibynnol), i weithio gyda phobl a gofalwyr i ddeall beth sydd o bwys iddyn nhw. Rhaid i wasanaethau weithio mewn partneriaeth i adeiladu ar gryfderau a galluoedd pobl er mwyn eu galluogi i gynnal

1 Gellir gweld 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu' yn www.gov.wales/topics/health/publications/socialcare/guidance1/services/?lang=cy

2 Gellir gweld Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn: www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=5664

annibyniaeth briodol gyda lefel briodol o ofal a chymorth. Bydd y fframwaith canlyniadau cenedlaethol yn cefnogi gwasanaethau i gydweithio er mwyn hyrwyddo llesiant mewn perthynas â gofal a chymorth.

- **Disgrifio'r canlyniadau llesiant cenedlaethol pwysig y dylai pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth, eu disgwyl er mwyn byw bywydau bodlon.**

  Bydd hyn yn rhoi mwy o lais i bobl a mwy o reolaeth dros eu bywydau ac yn eu galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus i sicrhau eu bod yn gwella eu llesiant eu hunain. Bydd canolbwyntio ar ganlyniadau llesiant pobl yn ysgogi profiadau gwell a gwasanaethau gwell ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth.

- **Darparu mwy o dryloywder ynghylch a yw gwasanaethau gofal a chymorth yn gwella canlyniadau llesiant i bobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth yng Nghymru, gan ddefnyddio dangosyddion cyson y gellir eu cymharu.**

  Bydd hyn yn galluogi'r sector i graffu ar ei berfformiad ac yn amlygu'r hyn sydd angen ei wneud i wella llesiant pobl, yn hytrach na chanolbwyntio ar y prosesau sydd ynghlwm wrth gyflenwi gwasanaethau cymdeithasol. Y fframwaith canlyniadau llesiant cenedlaethol fydd y prif ysgogydd ar gyfer dynodi blaenoriaethau cenedlaethol o ran gwelliannau, yn seiliedig ar dystiolaeth. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio'n effeithiol i ganolbwyntio adnoddau gwella yn y meysydd mwyaf pwysig, ac i ddynodi ac ymestyn arferion gorau a dynodi ymhle mae angen polisïau newydd.

## Datganiad llesiant

Mae'r canlyniadau llesiant cenedlaethol y dylai pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth, eu disgwyl er mwyn byw bywydau bodlon wedi eu cynnwys yn y datganiad llesiant  sy'n ffurfio rhan gyntaf y fframwaith canlyniadau cenedlaethol.

Mae'r datganiad llesiant yn ofynnol yn statudol. Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad o ganlyniadau llesiant sydd i'w cyflawni ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth, o dan Adran 8 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae'r datganiad llesiant yn adeiladu ar y diffiniad o lesiant a geir yn Adran 2 o'r Ddeddf. At ddibenion y Ddeddf, mae Adran 2 yn diffinio llesiant person fel llesiant o ran wyth agwedd ar eu bywyd:

- iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol;
- amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod;
- addysg, hyfforddiant a gweithgareddau hamdden;
- perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol;
- cyfraniad a wneir at y gymdeithas;
- sicrhau hawliau a hawlogaethau;
- llesiant cymdeithasol ac economaidd;
- addasrwydd llety preswyl.

Mae canlyniadau llesiant cenedlaethol y dylid eu cyflawni ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth, wedi cael eu pennu ar gyfer pob un o'r wyth agwedd ar lesiant. Mae rhai o'r canlyniadau'n disgrifio'r cyfrifoldebau y mae'n rhaid i'r bobl eu hunain eu hysgwyddo i helpu i sicrhau eu llesiant eu hunain.

Pennwyd y canlyniadau drwy drafod yn helaeth gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth beth sydd o bwys iddyn nhw. Ceir manylion ynghylch y broses o gydweithio gyda phobl a phartneriaid i ddatblygu'r datganiad llesiant yn yr asesiadau o effaith a gyhoeddir ochr yn ochr â'r ddogfen hon.

Mae'r tabl canlynol yn dangos y diffiniad o 'Beth mae llesiant yn ei olygu', o Adran 2 y Ddeddf, a'r canlyniadau llesiant cenedlaethol:

| **Beth mae llesiant yn ei olygu** | **Canlyniadau llesiant cenedlaethol** |
|---|---|
| Sicrhau hawliau a hawlogaethau<br><br>Hefyd yn achos oedolion: Rheolaeth ar fywyd pob dydd | Rwy'n gwybod ac yn deall pa ofal, cymorth a chyfleoedd sydd ar gael ac yn eu defnyddio er mwyn fy helpu i sicrhau fy llesiant.<br><br>Gallaf gael gafael ar yr wybodaeth gywir, pan fydd ei hangen arnaf, yn y ffordd rwyf am ei chael a defnyddio'r wybodaeth hon i reoli a gwella fy llesiant.<br><br>Caf fy nhrin ag urddas a pharch ac rwy'n trin eraill yn yr un ffordd.<br><br>Caiff fy llais ei glywed a gwrandewir arno.<br><br>Caiff fy amgylchiadau unigol eu hystyried.<br><br>Rwy'n siarad drosof fy hun ac yn cyfrannu at y penderfyniadau sy'n effeithio ar fy mywyd neu mae gennyf rywun a all wneud hynny drosof. |
| Iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol<br><br>Hefyd yn achos plant: Datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol | Rwy'n iach ac yn weithgar ac yn gwneud pethau i gadw fy hun yn iach.<br><br>Rwy'n hapus ac yn gwneud pethau sy'n fy ngwneud yn hapus.<br><br>Caf y gofal a'r cymorth cywir, cyn gynted â phosibl. |
| Amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod | Rwy'n ddiogel ac yn cael fy amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod.<br><br>Caf gymorth i amddiffyn y bobl sy'n bwysig i mi rhag camdriniaeth ac esgeulustod.<br><br>Caf wybodaeth am sut i leisio fy mhryderon. |
| Addysg, hyfforddiant a gweithgareddau hamdden | Rwy'n gallu dysgu a datblygu i'm llawn botensial.<br><br>Rwy'n gwneud y pethau sy'n bwysig i mi. |
| Perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol | Rwy'n perthyn.<br><br>Rwy'n cyfrannu at berthnasoedd diogel ac iach ac yn eu mwynhau. |
| Cyfraniad a wneir at y gymdeithas | Rwy'n ymgysylltu â'm cymuned ac yn cyfrannu ati.<br><br>Teimlaf fy mod yn cael fy ngwerthfawrogi mewn cymdeithas. |

| Beth mae llesiant yn ei olygu | Canlyniadau llesiant cenedlaethol |
|---|---|
| Llesiant cymdeithasol ac economaidd<br><br>Hefyd yn achos oedolion: Cymryd rhan mewn gwaith | Rwy'n cyfrannu at fy mywyd cymdeithasol a gallaf fod gyda'r bobl a ddewisaf.<br><br>Nid wyf yn byw mewn tlodi.<br><br>Caf gymorth i weithio.<br><br>Rwy'n cael yr help sydd ei angen arnaf i dyfu a bod yn annibynnol.<br><br>Caf ofal a chymorth drwy gyfrwng y Gymraeg os bydd angen hynny arnaf. |
| Addasrwydd llety preswyl | Rwy'n byw mewn cartref sy'n fy helpu orau i sicrhau fy llesiant. |

Bydd pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth eisiau cyflawni canlyniadau sy'n rhai personol iddyn nhw a'u hamgylchiadau unigol. Pan fydd pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth yn pennu eu canlyniadau llesiant personol ar y cyd â gwasanaethau, gallant ddisgwyl y byddant yn cyflawni canlyniadau personol sy'n adlewyrchu'r canlyniadau llesiant cenedlaethol a ddiffinnir yn y datganiad llesiant.

Mae hefyd yn ofynnol bod Gweinidogion Cymru yn pennu mesurau ar gyfer asesu i ba raddau y mae'r canlyniadau llesiant cenedlaethol wedi eu cyflawni. Mae nifer o ddangosyddion canlyniadau cenedlaethol wedi cael eu pennu i fesur y canlyniadau llesiant cenedlaethol.

Cyhoeddir y datganiad llesiant fel dogfen ar wahân ar wefan Llywodraeth Cymru; ynghyd â fersiwn hawdd ei darllen ohono, a fersiwn i blant, yn: www.gov.wales/topics/health/publications/socialcare/strategies/statement/?lang=cy

Bydd y datganiad llesiant yn cael ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru pan fydd y Ddeddf yn dod i rym ym mis Ebrill 2016.

## Dangosyddion canlyniadau cenedlaethol

Bydd y dangosyddion canlyniadau cenedlaethol yn darparu tystiolaeth i ddangos a yw'r canlyniadau llesiant cenedlaethol yn cael eu cyflawni ai peidio. Byddant hefyd yn ddull o fesur llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth, ar lefel genedlaethol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu dangosyddion a fydd yn mesur, mewn ffordd addas, a yw'r canlyniadau llesiant cenedlaethol yn cael eu cyflawni ai peidio. Mae'r datganiad llesiant yn cynnwys nifer o ddulliau goddrychol o fesur llesiant, megis mesur bodlonrwydd â bywyd.

Roedd yr astudiaeth a gomisiynwyd, 'Adroddiad dichonoldeb ynghylch mesur llesiant goddrychol pobl sydd angen gofal a chymorth', yn argymell defnyddio Arolwg Cenedlaethol Cymru i gasglu gwybodaeth oddrychol. Mewn ymateb i'r adroddiad, datblygwyd nifer o ddangosyddion canlyniadau goddrychol gyda rhanddeiliaid, a bydd y dangosyddion hyn yn cael eu cynnwys yn yr Arolwg Cenedlaethol.

Mae dangosyddion canlyniadau cenedlaethol eraill wedi cael eu dethol o blith ystod o ddata gweinyddol neu ddata arolygon. Wrth ddewis y dangosyddion i fesur canlyniadau llesiant, ystyriwyd a oedd ffynhonnell y data yn ddibynadwy; a oedd y dangosydd yn darparu data cyson, o ansawdd da; ac a oedd yn data'n cynrychioli pawb sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth.

Gellir gweld crynodeb o'r canlyniadau llesiant cenedlaethol a'r dangosyddion canlyniadau cenedlaethol yn Atodiad A. Ceir gwybodaeth dechnegol am y dangosyddion canlyniadau cenedlaethol, gan gynnwys manylion ynghylch y data a gesglir, a'r sail resymegol i bob un o'r dangosyddion, yn Atodiad B.

## Adroddiadau blynyddol

Bydd Llywodraeth Cymru yn adrodd ar gynnydd mewn perthynas â'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol yn 2016-17 mewn adroddiad blynyddol ysgrifenedig. Bydd yr adroddiad hwn yn darparu tystiolaeth a fydd yn dangos a yw llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth, yn gwella ar raddfa genedlaethol yng Nghymru.

Wrth adrodd ar y fframwaith canlyniadau cenedlaethol, ceir dealltwriaeth o effaith gyffredinol gofal a chymorth ar fywydau pobl. Bydd yn rhoi dull tryloyw o adrodd ar lesiant er mwyn medru blaenoriaethu gweithgarwch o ran gwneud gwelliannau, yn seiliedig ar ganlyniadau llesiant.

Mae 'Fy Iechyd a Gofal Cymdeithasol' yn wefan a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru i ddarparu gwybodaeth ac ystadegau i'r cyhoedd ynghylch iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r dangosyddion canlyniadau cenedlaethol wedi eu cyhoeddi ar wefan Fy Iechyd a Gofal Cymdeithasol fel ei bod yn bosibl i bobl weld a dadansoddi'r dangosyddion canlyniadau yn rhwydd ac mewn ffordd dryloyw. Mae'r wefan ar gael yn: www.mylocalhealthservice.wales.gov.uk/#/cy

Caiff y wefan ei diweddaru'n barhaus i sicrhau bod y dangosyddion canlyniadau cenedlaethol yn defnyddio'r data diweddaraf sydd ar gael.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ysgrifennu bwletin ynghylch llesiant personol pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth, gan ddefnyddio data o Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014-15. Bydd hwn yn sail i'r adroddiad blynyddol ysgrifenedig cyntaf ar y fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer 2016-17.

Mae'r bwletin yn defnyddio'r dangosyddion canlyniadau cenedlaethol ansoddol a data o weddill yr arolwg i roi darlun sylfaenol o lesiant personol pobl a gafodd ofal a chymorth a gofalwyr a gafodd gymorth yn y 12 mis diwethaf: Mae'r bwletin ar gael yn: www.gov.wales/topics/health/socialcare/well-being/?lang=cy

Bydd cwestiynau ynghylch gofal cymdeithasol yn cael eu cynnwys yn yr Arolwg Cenedlaethol newydd o fis Ebrill 2016. O ganlyniad i hyn, bydd yn bosibl cymharu agweddau ar lesiant pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth, cyn ac ôl i'r Ddeddf ddod i rym.

## Cysylltiadau â'r fframwaith mesur perfformiad ar gyfer awdurdodau lleol

Mae'r dull o fesur canlyniadau yn dilyn egwyddorion Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau. Mae Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau yn gwahaniaethu rhwng llesiant y boblogaeth (canlyniadau llesiant) a pherfformiad y gwasanaeth (y gwahaniaeth y mae gwasanaethau yn ei wneud er budd eu defnyddwyr). Mae gan bawb sydd angen gofal a chymorth, gofalwyr sydd angen cymorth a phob gwasanaeth eu cyfrifoldebau eu hunain i helpu i wella llesiant, fel y nodir yn y fframwaith canlyniadau cenedlaethol. Mae canlyniadau i'r boblogaeth yn golygu atebolrwydd ar y cyd (sy'n cael ei fesur gan y fframwaith canlyniadau cenedlaethol), ond mae pob gwasanaeth yn atebol yn uniongyrchol am y ffordd y mae'n darparu ei wasanaethau.

Er mwyn mesur atebolrwydd uniongyrchol ar gyfer awdurdodau lleol, datblygwyd fframwaith mesur perfformiad ar gyfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Mae'r fframwaith mesur perfformiad yn mesur y pethau mae awdurdodau lleol yn eu gwneud i wella canlyniadau llesiant pobl. Ceir manylion ynghylch y fframwaith mesur perfformiad yn y cod ymarfer ar gyfer mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol a gyhoeddwyd o dan adran 145 o'r Ddeddf. Mae'r cod ymarfer ar gael yn: www.gov.wales/topics/health/socialcare/well-being/performance/?lang=cy

Ceir rhagor o wybodaeth am egwyddorion Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau a'r derminoleg gysylltiedig yn: www.raguide.org/the-language-of-accountability/

## Cysoni â fframweithiau, rhaglenni a strategaethau eraill Llywodraeth Cymru

Mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad clir i wella llesiant pobl Cymru ac mae llesiant yn egwyddor greiddiol ym mhob un o'i pholisïau. Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[3] yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n disgrifio saith nod cenedlaethol ar gyfer llesiant sy'n rhoi gweledigaeth gyffredin y dylai cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf weithio tuag ati.

Mae fframwaith canlyniadau cenedlaethol y gwasanaethau cymdeithasol yn ategu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn gosod disgwyliadau a gofynion ar gyrff cyhoeddus i gydweithio i wella canlyniadau; gan gydnabod mai drwy gydweithio rhwng nifer o sefydliadau y caiff anghenion pobl, teuluoedd a chymunedau eu diwallu.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn ymwneud â phobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth, tra bo Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ymwneud â'r boblogaeth gyfan yng Nghymru.

Bydd rhai o raglenni eraill Llywodraeth Cymru, megis Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Cefnogi Pobl, yn cefnogi amcanion fframwaith canlyniadau cenedlaethol y gwasanaethau cymdeithasol ac yn cyfrannu at y gwaith o wella llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth, a gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl.

3 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Yr Hanfodion
www.gov.wales/docs/dsjlg/publications/150623-guide-to-the-fg-act-cy.pdf

Er bod gan awdurdodau lleol, gwasanaethau iechyd a gwasanaethau iechyd y cyhoedd yng Nghymru wahanol swyddogaethau, mae integreiddio'r gwasanaethau hyn yng Nghymru yn hanfodol er mwyn sicrhau llesiant. Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio fframweithiau canlyniadau ar gyfer y GIG ac Iechyd y Cyhoedd, ac mae'n hanfodol bod y fframweithiau canlyniadau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn gyson â'r rhain. Bydd hynny'n golygu bod gan yr holl wasanaethau egwyddorion cyffredin, lle bo hynny'n briodol.

Lluniwyd datganiad ar wahân sy'n egluro'r dull a ddilynwyd i sicrhau bod y tri fframwaith yn gyson. Mae'r datganiad ar gael yma: www.gov.wales/topics/health/socialcare/well-being/?lang=cy

# Atodiad A: Crynodeb o'r canlyniadau llesiant cenedlaethol a'r dangosyddion canlyniadau cenedlaethol

| Beth mae llesiant yn ei olygu | Canlyniadau llesiant cenedlaethol | Dangosyddion canlyniadau allweddol |
|---|---|---|
| Sicrhau hawliau a hawlogaethau<br><br>Hefyd yn achos oedolion: Rheolaeth ar fywyd pob dydd | Rwy'n gwybod ac yn deall pa ofal, cymorth a chyfleoedd sydd ar gael ac yn eu defnyddio er mwyn fy helpu i sicrhau fy llesiant<br><br>Gallaf gael gafael ar yr wybodaeth gywir, pan fydd ei hangen arnaf, yn y ffordd rwyf am ei chael a defnyddio'r wybodaeth hon i reoli a gwella fy llesiant<br><br>Caf fy nhrin ag urddas a pharch ac rwy'n trin eraill yn yr un ffordd<br><br>Caiff fy llais ei glywed a gwrandewir arno<br><br>Caiff fy amgylchiadau unigol eu hystyried<br><br>Rwy'n siarad drosof fy hun ac yn cyfrannu at y penderfyniadau sy'n effeithio ar fy mywyd, neu mae gennyf rywun a all wneud hynny drosof | Canran y bobl sy'n ystyried bod y gofal a'r cymorth maent wedi'i gael yn ardderchog neu'n dda<br><br>Canran y bobl sydd ag ansawdd bywyd gwell, diolch i gyfraniad eu gofal a chymorth<br><br>Canran y bobl sy'n marw yn eu lleoliad o ddewis<br><br>Canran y bobl sy'n teimlo eu bod wedi cael eu trin â pharch<br><br>Canran y bobl sy'n ystyried y bobl a roddodd help, gofal a chymorth iddynt yn ardderchog neu'n dda<br><br>Canran y bobl a gafodd yr wybodaeth neu'r cyngor cywir pan oedd arnynt ei angen<br><br>Canran y bobl sy'n adrodd eu bod nhw'n gallu rheoli eu bywyd beunyddiol gymaint ag y gallant<br><br>Canran y bobl sy'n teimlo eu bod yn rhan o benderfyniadau ynghylch eu gofal a'u cymorth<br><br>Canran y sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig gweithgareddau lles i deuluoedd a phlant<br><br>Canran defnyddwyr gwasanaethau i oedolion sy'n derbyn taliad uniongyrchol |

| Beth mae llesiant yn ei olygu | Canlyniadau llesiant cenedlaethol | Dangosyddion canlyniadau allweddol |
| --- | --- | --- |
| Iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol<br><br>Hefyd yn achos plant: Datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol | Rwy'n iach ac yn weithgar ac yn gwneud pethau i gadw fy hun yn iach<br><br>Rwy'n hapus ac yn gwneud pethau sy'n fy ngwneud yn hapus<br><br>Caf y gofal a'r cymorth cywir, cyn gynted â phosibl | Canran y bobl sydd â sgoriau hapusrwydd uchel<br><br>Canran y bobl sydd â sgoriau uchel o ran bodlondeb bywyd<br><br>Canran y bobl sydd â llesiant meddwl uchel<br><br>Canran y bobl sydd â llai na dau ymddygiad ffordd iach o fyw<br><br>Canran y genedigaethau byw, unig-anedig, sydd â phwysau geni o lai na 2,500 gram<br><br>Canran y plant mewn angen sydd â phroblemau iechyd meddwl<br><br>Canran y plant mewn angen sy'n gyfredol o ran imiwneiddio<br><br>Canran y plant Dechrau'n Deg sy'n cyrraedd neu'n rhagori ar eu cerrig milltir datblygiadol yn dair oed<br><br>Canran y plant mewn angen sy'n gyfredol o ran archwiliadau deintyddol yn bump oed a hŷn<br><br>Canran yr oedolion sy'n adrodd bod eu hiechyd yn gyffredinol yn dda iawn neu'n dda<br><br>Y nifer o flynyddoedd ychwanegol o ddisgwyliad oes iach pan yn 65 oed (dynion a menywod)<br><br>Nifer y bobl hŷn sy'n torri eu clun |

| **Beth mae llesiant yn ei olygu** | **Canlyniadau llesiant cenedlaethol** | **Dangosyddion canlyniadau allweddol** |
|---|---|---|
| Amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod | Rwy'n ddiogel ac yn cael fy amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod<br><br>Caf gymorth i amddiffyn y bobl sy'n bwysig i mi rhag camdriniaeth ac esgeulustod<br><br>Caf wybodaeth am sut i leisio fy mhryderon | Nifer y digwyddiadau o gam-drin domestig a throseddau rhyw<br><br>Canran y plant sy'n cael eu hailgofrestru ar gofrestr amddiffyn plant awdurdod lleol<br><br>Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel<br><br>Canran yr oedolion sydd mewn perygl o gam-drin neu esgeuluso sy'n cael ei adrodd fwy nag unwaith y flwyddyn |
| Addysg, hyfforddiant a gweithgareddau hamdden | Rwy'n gallu dysgu a datblygu i'm llawn botensial<br><br>Rwy'n gwneud y pethau sy'n bwysig i mi | Canlyniadau cyfnod allweddol 2 a 4 ar gyfer plant mewn angen<br><br>Cyfraddau presenoldeb plant mewn angen yn yr ysgol<br><br>Deilliannau dysgwyr yn y sectorau addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion yn y gymuned<br><br>Y sgôr pwyntiau cymwysterau allanol ar gyfartaledd ar gyfer plant 16 oed sy'n derbyn gofal mewn unrhyw sefydliad addysg a gynhelir gan awdurdod addysg lleol<br><br>Canran yr oedolion rhwng 16 a 64 oed sydd ag o leiaf un cymhwyster<br><br>Canran y plant mewn angen sydd wedi cyflawni'r lefel ddysgu ddisgwyliedig, neu uwch, ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen<br><br>Canran y bobl sy'n adrodd eu bod yn gallu gwneud yr hyn sy'n bwysig iddynt |

| Beth mae llesiant yn ei olygu | Canlyniadau llesiant cenedlaethol | Dangosyddion canlyniadau allweddol |
|---|---|---|
| Perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol | Rwy'n perthyn<br><br>Rwy'n cyfrannu at berthnasoedd diogel ac iach ac yn eu mwynhau | Canran y bobl sy'n teimlo eu bod nhw'n perthyn i'w hardal leol<br><br>Canran y bobl sy'n teimlo bod eu hardal leol yn rhywle lle mae pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda<br><br>Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn teimlo'n unig yn gyffredinol, yn emosiynol ac yn gymdeithasol<br><br>Canran y bobl sy'n meddwl bod pobl yn eu hardal leol yn parchu ac yn ystyried ei gilydd |
| Cyfraniad a wneir at y gymdeithas | Rwy'n ymgysylltu â'm cymuned ac yn cyfrannu ati<br><br>Teimlaf fy mod yn cael fy ngwerthfawrogi mewn cymdeithas | Canran y bobl sy'n adrodd bod y pethau a wnânt mewn bywyd yn werth chweil<br><br>Canran y bobl sy'n gwirfoddoli<br><br>Canran y sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig gweithgareddau i'r gymuned neu i bobl ifanc<br><br>Canran y sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig gwasanaethau i'r anabl |
| Llesiant cymdeithasol ac economaidd<br><br>Hefyd yn achos oedolion: Cymryd rhan mewn gwaith | Rwy'n cyfrannu at fy mywyd cymdeithasol a gallaf fod gyda'r bobl a ddewisaf<br><br>Nid wyf yn byw mewn tlodi<br><br>Caf gymorth i weithio<br><br>Rwy'n cael yr help sydd ei angen arnaf i dyfu a bod yn annibynnol<br><br>Caf ofal a chymorth drwy gyfrwng y Gymraeg os bydd angen hynny arnaf | Cyfradd cyflogaeth oedolion 50 oed a hŷn<br><br>Cyfradd cyflogaeth oedolion sydd rhwng 16 a 64 oed ac sydd ag anabledd craidd neu anabledd sy'n cyfyngu ar waith dan y Ddeddf Cydraddoldeb<br><br>Bwlch o ran disgwyliad oes rhwng y rhai sydd leiaf a mwyaf difreintiedig<br><br>Canran y bobl ifanc 19-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant<br><br>Canran yr aelwydydd sy'n ddifreintiedig yn faterol |

| Beth mae llesiant yn ei olygu | Canlyniadau llesiant cenedlaethol | Dangosyddion canlyniadau allweddol |
|---|---|---|
| Addasrwydd llety preswyl | Rwy’n byw mewn cartref sy’n fy helpu orau i sicrhau fy llesiant | Canran y bobl sy’n dweud bod eu llety yn addas i’w hanghenion<br><br>Canran y teuluoedd digartref sy’n cynnwys plant dibynnol neu fenyw sy’n feichiog<br><br>Canran y sefydliadau gwirfoddol sy’n cynnig gweithgareddau tai<br><br>Canran y tai cymdeithasol sy’n cyd-fynd â Safon Ansawdd Tai Cymru |

# Atodiad B: Gwybodaeth dechnegol am y dangosyddion canlyniadau cenedlaethol

## Sicrhau hawliau a hawlogaethau

### Canran y bobl sy'n ystyried bod y gofal a'r cymorth maent wedi'i gael yn ardderchog neu'n dda

Mae pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth yn disgwyl cael gwasanaeth o ansawdd gan ddarparwyr gofal a chymorth. Disgwylir nifer o safonau ymddygiad ac ymarfer gan wasanaethau gofal a chymorth wrth iddynt ddarparu'r gwasanaethau i'r bobl maent yn gofalu amdanynt ac yn eu cynorthwyo. Mae'r dangosydd hwn yn rhoi mesur uniongyrchol o ansawdd cyffredinol y gwasanaethau gofal a chymorth sy'n cael ei adrodd gan bobl sydd wedi cael gofal a chymorth a gofalwyr sydd wedi cael cymorth yn y 12 mis diwethaf.

| | |
|---|---|
| Beth yw llwyddiant? | Cynnydd yn y canrannau dros amser |
| Ffynhonnell y data: | Arolwg Cenedlaethol Cymru |
| Grŵp defnyddwyr: | Pobl sydd wedi cael gofal a chymorth a gofalwyr sydd wedi cael cymorth (16 oed a hŷn) |
| Lefel ddaearyddol: | Cymru |

### Canran y bobl sydd ag ansawdd bywyd gwell, diolch i gyfraniad eu gofal a chymorth

Mae dyletswydd ar wasanaethau gofal a chymorth i hyrwyddo llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth. Mae'n rhaid i wasanaethau helpu pobl i sicrhau eu canlyniadau llesiant a chael ansawdd bywyd gwell. Mae'r dangosydd hwn yn rhoi mesur o'r effaith y mae gofal a chymorth wedi'i chael ar ansawdd bywyd y bobl sydd wedi cael gofal a chymorth a gofalwyr sydd wedi cael cymorth yn y 12 mis diwethaf.

| | |
|---|---|
| Beth yw llwyddiant? | Cynnydd yn y canrannau dros amser |
| Ffynhonnell y data: | Arolwg Cenedlaethol Cymru |
| Grŵp defnyddwyr: | Pobl sydd wedi cael gofal a chymorth a gofalwyr sydd wedi cael cymorth (16 oed a hŷn) |
| Lefel ddaearyddol: | Cymru |

| Canran y bobl sy'n marw yn eu lleoliad o ddewis | |
|---|---|
| Mae'n rhaid i bobl allu lleisio'u barn a chael pobl i wrando arnynt, a chyfrannu at benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae'r dangosydd hwn yn cofnodi a yw pobl yn cyfrannu at benderfyniadau sy'n effeithio ar ddiwedd eu bywydau. | |
| Beth yw llwyddiant? | Y dangosydd yn cael ei ddatblygu |
| Ffynhonnell y data: | Y dangosydd yn cael ei ddatblygu |
| Grŵp defnyddwyr: | Y dangosydd yn cael ei ddatblygu |
| Lefel ddaearyddol: | Y dangosydd yn cael ei ddatblygu |
| Rhennir â: | Fframwaith canlyniadau'r GIG |

| Canran y bobl sy'n teimlo eu bod wedi cael eu trin â pharch | |
|---|---|
| Mae'n rhaid i bobl gael eu trin ag urddas a pharch, a'u bod yn trin eraill yn yr un ffordd. Bydd y dangosydd hwn yn mesur a yw pobl yn teimlo eu bod wedi cael eu trin â pharch. Gofynnir i bobl am barch ym mhob rhan o'u bywyd, ac nid yn unig wrth gael gwasanaethau gofal a chymorth. Fodd bynnag, bydd modd asesu a oes gwahaniaeth yn y sgoriau rhwng pobl sydd wedi cael gofal a chymorth a gofalwyr sydd wedi cael cymorth yn y 12 mis diwethaf, a'r rheini sydd heb gael gwasanaethau gofal a chymorth. | |
| Beth yw llwyddiant? | Cynnydd yn y canrannau dros amser |
| Ffynhonnell y data: | Arolwg Cenedlaethol Cymru |
| Grŵp defnyddwyr: | Pobl sydd wedi cael gofal a chymorth a gofalwyr sydd wedi cael cymorth (16 oed a hŷn) |
| Lefel ddaearyddol: | Cymru |

| Canran y bobl sy'n ystyried y bobl a roddodd help, gofal a chymorth iddynt yn ardderchog neu'n dda | |
|---|---|
| Mae pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth yn disgwyl help a chymorth o ansawdd uchel gan bobl sy'n eu darparu; disgwylir nifer o safonau ymddwyn ac ymarfer gan weithwyr gofal a chymorth wrth iddynt ddarparu gofal a chymorth uniongyrchol i bobl. Mae'r dangosydd hwn yn rhoi mesur o ansawdd y gofal a'r cymorth sydd wedi'u darparu i bobl yn y 12 mis diwethaf. | |
| Beth yw llwyddiant? | Cynnydd yn y canrannau dros amser |
| Ffynhonnell y data: | Arolwg Cenedlaethol Cymru |
| Grŵp defnyddwyr: | Pobl sydd wedi cael gofal a chymorth a gofalwyr sydd wedi cael cymorth (16 oed a hŷn) |
| Lefel ddaearyddol: | Cymru |

| Canran y bobl a gafodd yr wybodaeth neu'r cyngor cywir pan oedd arnynt ei angen | |
|---|---|
| Bydd gwybodaeth, cyngor a chymorth a chyfeirio pobl at wasanaethau ataliol a llesiant priodol yn y gymuned yn chwarae rôl hanfodol yn y gwaith o atal yr angen am ofal a chymorth rhag cynyddu. Bydd y dangosydd hwn yn monitro a fu modd i bobl sydd wedi cael gofal a chymorth a gofalwyr sydd wedi cael cymorth yn y 12 mis diwethaf gael mynediad at wybodaeth neu gyngor cyn gynted ag yr oedd eu hangen arnynt. Bydd hefyd yn monitro ai dyma'r wybodaeth gywir er mwyn i'w llesiant fod cystal â phosibl. | |
| Beth yw llwyddiant? | Cynnydd yn y canrannau dros amser |
| Ffynhonnell y data: | Arolwg Cenedlaethol Cymru |
| Grŵp defnyddwyr: | Pobl sydd wedi cael gofal a chymorth a gofalwyr sydd wedi cael cymorth (16 oed a hŷn) |
| Lefel ddaearyddol: | Cymru |

| Canran y bobl sy'n adrodd eu bod nhw'n gallu rheoli eu bywyd beunyddiol gymaint ag y gallant | |
|---|---|
| Mae helpu pobl i reoli eu bywydau eu hunain gymaint ag sy'n rhesymol ymarferol, a bod yn rhan o benderfyniadau am eu gofal a'u cymorth yn ganlyniadau llesiant allweddol. Bydd y dangosydd hwn yn monitro a oedd pobl sydd wedi cael gofal a chymorth a gofalwyr sydd wedi cael cymorth yn y 12 mis diwethaf yn teimlo eu bod nhw'n gallu rheoli eu bywydau. Bydd modd asesu a oes gwahaniaeth yn y sgoriau rhwng pobl sydd wedi cael gofal a chymorth a gofalwyr sydd wedi cael cymorth yn y 12 mis diwethaf a'r rheini sydd heb gael y gwasanaethau gofal a chymorth hyn. | |
| Beth yw llwyddiant? | Cynnydd yn y canrannau dros amser |
| Ffynhonnell y data: | Arolwg Cenedlaethol Cymru |
| Grŵp defnyddwyr: | Pobl sydd wedi cael gofal a chymorth a gofalwyr sydd wedi cael cymorth (16 oed a hŷn) |
| Lefel ddaearyddol: | Cymru |

| Canran y bobl sy'n teimlo eu bod yn rhan o benderfyniadau ynghylch eu gofal a'u cymorth | |
|---|---|
| Mae'n rhaid i bobl gael eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio a darparu eu gofal a'u cymorth. Nhw sy'n gwybod beth sydd orau iddynt ac mae'n rhaid iddynt fod yn bartneriaid cyfartal yn eu gofal a'u cymorth. Bydd y dangosydd hwn yn mesur a oedd pobl sydd wedi cael gofal a chymorth a gofalwyr sydd wedi cael cymorth yn y 12 mis diwethaf yn teimlo eu bod yn rhan o benderfyniadau am eu gofal a'u cymorth. | |
| Beth yw llwyddiant? | Cynnydd yn y canrannau dros amser |
| Ffynhonnell y data: | Arolwg Cenedlaethol Cymru |
| Grŵp defnyddwyr: | Pobl sydd wedi cael gofal a chymorth a gofalwyr sydd wedi cael cymorth (16 oed a hŷn) |
| Lefel ddaearyddol: | Cymru |

| Canran y sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig gweithgareddau lles i deuluoedd a phlant | |
|---|---|
| Mae'r trydydd sector yn ategu gwasanaethau statudol trwy gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau di-dor, a darparu gwasanaethau er budd pobl a chymunedau yng Nghymru. Amcangyfrifir bod dros 33,000 o sefydliadau'r trydydd sector yn gweithio yng Nghymru, ac maent yn amrywio o grwpiau codi arian lleol ar gyfer elusennau cenedlaethol, grwpiau i denantiaid a phreswylwyr neu glybiau diddordebau a chwaraeon i elusennau mawr cenedlaethol a'r DU. Mae'r dangosydd hwn yn mesur canran y sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig gweithgareddau i gefnogi lles teuluoedd a phlant. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys: darpariaeth cyn-ysgol, canolfannau lleol sy'n darparu gwasanaethau, gwasanaethau mabwysiadu a maethu, sefydliadau hawliau plant a gwasanaethau i blant anabl. Y bwriad yw y bydd gweithredu dyletswydd adran 16 yn cynyddu amrywiaeth y ddarpariaeth sydd ar gael, gan gydnabod nad oes dull sy'n addas i bawb ar gael wrth wneud hynny. Mae hefyd wedi'i anelu at hwyluso amgylchedd lle bo modd i bobl gefnogi'u hunain yn well, lle y bo'n briodol. | |
| Beth yw llwyddiant? | Cynnydd yn y canrannau dros amser |
| Ffynhonnell y data: | Adnodd Ystadegol Trydydd Sector Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru |
| Grŵp defnyddwyr: | Pawb |
| Lefel ddaearyddol: | Awdurdodau lleol |

| Canran defnyddwyr gwasanaethau i oedolion sy’n derbyn taliad uniongyrchol | |
|---|---|
| Taliadau ariannol sy’n cael eu gwneud yn uniongyrchol gan awdurdodau lleol i oedolion brynu gwasanaethau gofal a chymorth yw taliadau uniongyrchol. Mae’r dangosydd hwn yn edrych ar yr oedolion hynny sy’n defnyddio’r gwasanaethau ac sy’n derbyn taliad uniongyrchol. Mae’r dangosydd hwn yn bwysig gan ei fod yn dangos pwy sydd wedi defnyddio’r dewis o gael taliad gan ei awdurdod lleol i drefnu drosto’i hun y gofal a’r cymorth cymdeithasol yr aseswyd ei fod eu hangen. Mae hyn yn rhoi rheolaeth wirioneddol i’r unigolion hyn dros y ffordd y caiff eu hanghenion gofal a chymorth eu diwallu. | |
| Beth yw llwyddiant? | Cynnydd yn y canrannau dros amser |
| Ffynhonnell y data: | Datganiad data awdurdodau lleol ynghylch oedolion sy’n cael gofal a chymorth |
| Grŵp defnyddwyr: | Oedolion sy’n cael gofal a chymorth |
| Lefel ddaearyddol: | Awdurdodau lleol |

# Iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol

## Canran y bobl sydd â sgoriau hapusrwydd uchel

Gall lefelau hapusrwydd pobl adlewyrchu eu llesiant emosiynol. Mae'r dangosydd hwn yn mesur gwerthusiad pobl o'u bywydau eu hunain a'u hasesiad o'u llesiant emosiynol eu hunain. Mae hwn yn un o'r pedwar mesur llesiant a grëwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Gofynnir i bobl 'pa mor hapus oeddech chi'n teimlo ddoe?' Bydd modd asesu a oes gwahaniaeth yn y sgoriau rhwng pobl sydd wedi cael gofal a chymorth a gofalwyr sydd wedi cael cymorth yn y 12 mis diwethaf, a'r rheini sydd heb gael gwasanaethau gofal a chymorth.

| | |
|---|---|
| Beth yw llwyddiant? | Y sgoriau'n cynyddu dros amser |
| Ffynhonnell y data: | Arolwg Cenedlaethol Cymru |
| Grŵp defnyddwyr: | Pobl sydd wedi cael gofal a chymorth a gofalwyr sydd wedi cael cymorth (16 oed a hŷn) |
| Lefel ddaearyddol: | Cymru |

## Canran y bobl sydd â sgoriau uchel o ran bodlondeb bywyd

Gall lefelau bodlondeb bywyd pobl adlewyrchu eu llesiant emosiynol. Mae'r dangosydd hwn yn mesur gwerthusiad pobl o'u bywydau eu hunain a'u hasesiad o'u llesiant emosiynol eu hunain. Mae hwn yn un o'r pedwar mesur llesiant a grëwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, a gofynnir i bobl 'pa mor fodlon ydych chi gyda'ch bywyd y dyddiau hyn?' Bydd modd asesu a oes gwahaniaeth yn y sgoriau rhwng pobl sydd wedi cael gofal a chymorth a gofalwyr sydd wedi cael cymorth yn y 12 mis diwethaf, a'r rheini sydd heb gael gwasanaethau gofal a chymorth.

| | |
|---|---|
| Beth yw llwyddiant? | Cynnydd yn y sgoriau dros amser |
| Ffynhonnell y data: | Arolwg Cenedlaethol Cymru |
| Grŵp defnyddwyr: | Pobl sydd wedi cael gofal a chymorth a gofalwyr sydd wedi cael cymorth (16 oed a hŷn) |
| Lefel ddaearyddol: | Cymru |
| Rhennir â: | Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd |

| Canran y bobl sydd â llesiant meddwl uchel | |
|---|---|
| Mae'r dangosydd hwn yn monitro llesiant meddwl hunan-gofnodedig pobl gan ddefnyddio Graddiant Llesiant Meddwl Warwick-Edinburgh. Datblygwyd y Raddfa yn yr Alban a chaiff ei defnyddio'n eang ledled y DU. Mae rhagor o wybodaeth am y Raddfa ar gael yma: www.healthscotland.com/scotlands-health/population/Measuring-positive-mental-health.aspx. Bydd modd asesu a oes gwahaniaeth yn y sgoriau rhwng pobl sydd wedi cael gofal a chymorth a gofalwyr sydd wedi cael cymorth yn y 12 mis diwethaf a'r rheini sydd heb gael y gwasanaethau gofal a chymorth hyn. | |
| Beth yw llwyddiant? | Cynnydd yn y sgoriau dros amser |
| Ffynhonnell y data: | Arolwg Cenedlaethol Cymru |
| Grŵp defnyddwyr: | Pobl sydd wedi cael gofal a chymorth a gofalwyr sydd wedi cael cymorth (16 oed a hŷn) |
| Lefel ddaearyddol: | Cymru |
| Rhennir â: | Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd<br>Dangosyddion canlyniadau cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) |

| Canran y plant mewn angen sydd â phroblemau iechyd meddwl | |
|---|---|
| Mae'r dangosydd hwn yn mesur a yw plant mewn angen yn profi anawsterau o ran eu datblygiad emosiynol neu ymddygiadol a allai effeithio ar eu gallu i gyflawni eu potensial llawn mewn bywyd. | |
| Beth yw llwyddiant? | Gostyngiad yn y canrannau dros amser |
| Ffynhonnell y data: | Cyfrifiad Plant mewn Angen awdurdodau lleol (a fydd yn cael ei alw'n Gyfrifiad Plant sy'n Cael Gofal a Chymorth o 2016-17 ymlaen) |
| Grŵp defnyddwyr: | Plant mewn Angen (a fydd yn newid i blant sydd â chynllun gofal a chymorth yn 2016-17) |
| Lefel ddaearyddol: | Awdurdodau lleol |

| Canran y bobl sydd â llai na dau ymddygiad ffordd iach o fyw | |
|---|---|
| Mae pobl yn gyfrifol am y pethau sy'n eu cadw'n iach ac yn egnïol. Ceir pum ymddygiad ffordd iach o fyw sy'n cael eu cysylltu'n fwyaf cyffredin ag iechyd da. Y rhain yw: peidio â smygu, cadw pwysau iach, bwyta pum darn o ffrwythau neu lysiau y diwrnod, peidio ag yfed uwchlaw'r canllawiau a bodloni canllawiau gweithgarwch corfforol. Mae'r dangosydd hwn yn mesur oedolion sy'n gwneud llai na dau o'r ymddygiadau ffordd iach o fyw. Bydd modd asesu a oes gwahaniaeth yn ymddygiadau ffordd iach o fyw pobl sydd wedi cael gofal a chymorth a gofalwyr sydd wedi cael cymorth yn y 12 mis diwethaf, a'r rheini sydd heb gael gwasanaethau gofal a chymorth. | |
| Beth yw llwyddiant? | Cynnydd yn y canrannau dros amser |
| Ffynhonnell y data: | Arolwg Cenedlaethol Cymru |
| Grŵp defnyddwyr: | Pobl sydd wedi cael gofal a chymorth a gofalwyr sydd wedi cael cymorth (16 oed a hŷn) |
| Lefel ddaearyddol: | Cymru |
| Rhennir â: | Dangosyddion canlyniadau cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) |

| Canran y genedigaethau byw, unig-anedig, sydd â phwysau geni o lai na 2,500 gram | |
|---|---|
| Mae'r dangosydd hwn yn monitro pwysau geni isel yng Nghymru. Gall babanod sy'n cael eu geni â phwysau isel fod yn agored i heriau hirdymor i'w datblygiad fel plant a'u tebygolrwydd o gyflawni'u potensial llawn trwy eu plentyndod ac fel oedolion. Yn aml, mae ffactorau sy'n ymwneud â phwysau geni isel, fel camddefnyddio sylweddau yn ystod beichiogrwydd, yn gallu arwain at y gwasanaethau cymdeithasol yn camu i mewn. | |
| Beth yw llwyddiant? | Gostyngiad yn y canrannau dros amser |
| Ffynhonnell y data: | Y Gronfa Ddata Genedlaethol ar Iechyd Plant Cymunedol |
| Grŵp defnyddwyr: | Yr holl blant sy'n cael eu geni yng Nghymru |
| Lefel ddaearyddol: | Awdurdodau lleol |
| Rhennir â: | Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd<br>Dangosyddion canlyniadau cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) |

| Canran y plant mewn angen sy'n gyfredol o ran imiwneiddio | |
|---|---|
| Mae'r GIG wedi llunio rhestr wirio o'r brechiadau sy'n cael eu cynnig yn gyffredinol i bawb yn y DU am ddim ar y GIG, a'r oedrannau y dylent gael eu rhoi yn ddelfrydol. Mae'r dangosydd hwn yn monitro a yw plant mewn angen yn cael eu hamddiffyn yn erbyn clefydau heintus i helpu i sicrhau eu bod yn parhau'n iach trwy gydol eu plentyndod. | |
| Beth yw llwyddiant? | Cynnydd yn y canrannau dros amser |
| Ffynhonnell y data: | Cyfrifiad Plant mewn Angen awdurdodau lleol (a fydd yn cael ei alw'n Gyfrifiad Plant sy'n Cael Gofal a Chymorth o 2016-17 ymlaen) |
| Grŵp defnyddwyr: | Plant mewn Angen (a fydd yn newid i blant sydd â chynllun gofal a chymorth yn 2016-17) |
| Lefel ddaearyddol: | Awdurdodau lleol |

| Canran y plant Dechrau'n Deg sy'n cyrraedd neu'n rhagori ar eu cerrig milltir datblygiadol yn dair oed | |
|---|---|
| Mae Dechrau'n Deg wedi'i dargedu at wella cyfleoedd bywyd plant mewn rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig. Mae prosiectau'n sicrhau bod plant yn cael y cyfle i ddysgu, datblygu a chwarae. Mae'r dangosydd hwn yn mesur a yw'r plant hynny sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig ac sy'n cymryd rhan mewn prosiectau Dechrau'n Deg yn cyrraedd cerrig milltir datblygu cyffredinol wrth baratoi i fynd i'r ysgol ac yn y tymor hwy. | |
| Beth yw llwyddiant? | Cynnydd yn y canrannau dros amser |
| Ffynhonnell y data: | Crynodeb o ystadegau Dechrau'n Deg |
| Grŵp defnyddwyr: | Yr holl blant sy'n cael gwasanaethau Dechrau'n Deg |
| Lefel ddaearyddol: | Awdurdodau lleol |

| Canran y plant mewn angen sy'n gyfredol o ran archwiliadau deintyddol yn bump oed a hŷn | |
|---|---|
| Mae iechyd deintyddol gwael yn aml yn ddangosydd cynnar o faterion iechyd eraill yn ddiweddarach mewn bywyd. Mae'r dangosydd hwn yn edrych i weld a yw plant mewn angen yn cael archwiliadau deintyddol rheolaidd i leihau'r risg o ddatblygu cyflyrau fel pydredd ac erydiad dannedd. | |
| Beth yw llwyddiant? | Cynnydd yn y canrannau dros amser |
| Ffynhonnell y data: | Cyfrifiad Plant mewn Angen awdurdodau lleol (a fydd yn cael ei alw'n Gyfrifiad Plant sy'n Cael Gofal a Chymorth o 2016-17 ymlaen) |
| Grŵp defnyddwyr: | Plant mewn Angen (a fydd yn newid i blant sydd â chynllun gofal a chymorth yn 2016-17) |
| Lefel ddaearyddol: | Awdurdodau lleol |

| Canran y bobl sy'n adrodd bod eu hiechyd yn gyffredinol yn dda iawn neu'n dda | |
|---|---|
| Mae pobl yn gyfrifol am gadw eu hunain yn iach. Dylai gwasanaethau gofal a chymorth effeithiol gefnogi pobl i wella'u hiechyd lle y bo'n bosibl. Bydd y dangosydd hwn yn cofnodi gwerthusiad pobl o'u hiechyd personol eu hunain. Bydd modd asesu a oes gwahaniaeth yn iechyd pobl sydd wedi cael gofal a chymorth a gofalwyr sydd wedi cael cymorth yn y 12 mis diwethaf a'r rheini sydd heb gael gwasanaethau gofal a chymorth. | |
| Beth yw llwyddiant? | Cynnydd yn y canrannau dros amser |
| Ffynhonnell y data: | Arolwg Cenedlaethol Cymru |
| Grŵp defnyddwyr: | Pobl sydd wedi cael gofal a chymorth a gofalwyr sydd wedi cael cymorth (16 oed a hŷn) |
| Lefel ddaearyddol: | Cymru |
| Rhennir â: | Fframwaith canlyniadau'r GIG<br>Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd |

| Y nifer o flynyddoedd ychwanegol o ddisgwyliad oes iach pan yn 65 oed (dynion a menywod) | |
|---|---|
| Mae'r dangosydd hwn yn edrych ar ba mor hir y mae disgwyl i bobl dreulio gweddill eu bywydau mewn iechyd 'da' neu 'ddim yn dda' y tu hwnt i 65 oed. Bydd gwasanaethau gofal a chymorth yn chwarae rôl sylweddol o ran sicrhau bod pobl yn parhau i gadw iechyd corfforol ac emosiynol wrth iddynt fynd yn hŷn ac felly'n cyfrannu at gynnydd yn nisgwyliad oes iach y boblogaeth gyfan pan yn 65 oed. | |
| Beth yw llwyddiant? | Cynnydd yn y blynyddoedd dros amser |
| Ffynhonnell y data: | Tablau bywyd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) |
| Grŵp defnyddwyr: | Pob oedolyn 65 oed |
| Lefel ddaearyddol: | Cymru |

| Nifer y bobl hŷn sy'n torri eu clun | |
|---|---|
| Mae nifer y bobl hŷn sy'n cael eu derbyn ar frys i'r ysbyty oherwydd eu bod wedi torri eu clun yn fwyaf cyffredin oherwydd eu bod wedi syrthio un ai y tu mewn neu'r tu allan i'w cartref. Ar ôl i unigolyn syrthio, gall niweidio'i hyder, arwain at fod yn ofnus yn ei fywyd pob dydd a chynyddu'r tebygolrwydd y bydd yn cael ei arwahanu'n gymdeithasol. Gall atal pobl rhag syrthio helpu i sicrhau y gallant fyw eu bywydau i'r eithaf, yn ogystal â gostwng nifer y bobl sy'n cael eu derbyn ar frys i'r ysbyty. Mae'r dangosydd hwn yn mesur y gyfradd wedi'i safoni yn ôl oedran i bob 100,000 o dderbyniadau brys ar gyfer pobl 65 oed a hŷn sy'n torri eu clun. | |
| Beth yw llwyddiant? | Gostyngiad yn y cyfraddau dros amser |
| Ffynhonnell y data: | Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru, (Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru)<br>Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn (SYG) |
| Grŵp defnyddwyr: | Pob oedolyn 65 oed a hŷn |
| Lefel ddaearyddol: | Byrddau Iechyd Lleol |
| Rhennir â: | Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd |

# Amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod

| Nifer y digwyddiadau o gam-drin domestig | |
|---|---|
| Mae'r datganiad llesiant yn disgrifio canlyniadau llesiant i amddiffyn pobl rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso, yn ogystal ag addysgu pobl a'r rheini sydd o'u cwmpas i adnabod yr arwyddion a'r peryglon. Mae'r dangosydd hwn yn mesur canran y newid yn nifer y digwyddiadau cam-drin domestig yng Nghymru a chanran y digwyddiadau hynny lle cafodd o leiaf un drosedd ei chyflawni. Er y gallai cynnydd yn yr adrodd effeithio ar y ffigurau, y nod cyffredinol yw gweld gostyngiad yn nifer y digwyddiadau cam-drin domestig dros amser. | |
| Beth yw llwyddiant? | Gostyngiad yn nifer y digwyddiadau dros amser |
| Ffynhonnell y data: | Nifer y troseddau sy'n cael eu cofnodi gan bob un o ardaloedd yr heddlu yng Nghymru |
| Grŵp defnyddwyr: | Pawb yng Nghymru |
| Lefel ddaearyddol: | Ardaloedd yr heddlu (awdurdodau lleol o 2016 ymlaen) |

| Nifer y digwyddiadau o droseddau rhyw | |
|---|---|
| Mae'r datganiad llesiant yn disgrifio canlyniadau llesiant i amddiffyn pobl rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso, yn ogystal ag addysgu pobl a'r rheini sydd o'u cwmpas i adnabod yr arwyddion a'r peryglon. Mae'r dangosydd hwn yn mesur canran y newid bob blwyddyn yn nifer y troseddau rhywiol yng Nghymru. Er y gallai cynnydd yn yr adrodd effeithio ar y ffigurau, y nod cyffredinol yw gweld gostyngiad yn nifer y troseddau rhywiol dros amser. | |
| Beth yw llwyddiant? | Gostyngiad yn nifer y troseddau dros amser |
| Ffynhonnell y data: | Nifer y troseddau sy'n cael eu cofnodi gan bob un o ardaloedd yr heddlu yng Nghymru |
| Grŵp defnyddwyr: | Pawb yng Nghymru |
| Lefel ddaearyddol: | Awdurdodau lleol |

| Canran y plant sy'n cael eu hailgofrestru ar gofrestr amddiffyn plant awdurdod lleol | |
|---|---|
| Mae'r dangosydd hwn yn edrych ar ganran y plant sy'n cael eu hailgofrestru ar y gofrestr amddiffyn plant er mwyn deall a yw plant yn cael eu hamddiffyn rhag cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso. Er ei bod yn bwysig bod plant yn parhau i gael eu hamddiffyn os ydynt mewn perygl, y nod yw gweld y cyfraddau'n gostwng dros amser i ddangos bod llai o blant yn cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso. | |
| Beth yw llwyddiant? | Gostyngiad yn y canrannau dros amser |
| Ffynhonnell y data: | Mesur perfformiad awdurdodau lleol |
| Grŵp defnyddwyr: | Plant sydd ar gofrestrau amddiffyn plant awdurdodau lleol |
| Lefel ddaearyddol: | Awdurdodau lleol |

| Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel | |
|---|---|
| Mae'r dangosydd hwn yn mesur a yw oedolion yn teimlo'n ddiogel ac yn cofnodi gwerthusiad pobl eu hunain ynghylch a ydynt yn teimlo'n ddiogel ym mhob agwedd ar eu bywyd (bydd pobl yn penderfynu beth yw ystyr hyn iddynt yn bersonol). Bydd modd asesu a oes gwahaniaeth yn y canlyniadau rhwng pobl sydd wedi cael gofal a chymorth a gofalwyr sydd wedi cael cymorth yn y 12 mis diwethaf a gweddill ymatebwyr yr arolwg (y rheini sydd heb gael gwasanaethau gofal a chymorth). | |
| Beth yw llwyddiant? | Cynnydd yn y canrannau dros amser |
| Ffynhonnell y data: | Arolwg Cenedlaethol Cymru |
| Grŵp defnyddwyr: | Pobl sydd wedi cael gofal a chymorth a gofalwyr sydd wedi cael cymorth (16 oed a hŷn) |
| Lefel ddaearyddol: | Cymru |

| Canran yr oedolion sydd mewn risg o gam-drin neu esgeuluso sy'n cael ei adrodd fwy nag unwaith y flwyddyn | |
|---|---|
| Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol a'u partneriaid perthnasol adrodd i'r awdurdod lleol priodol eu bod yn amau y gall oedolyn fod mewn perygl o gael ei gam-drin neu'i esgeuluso. Gall awdurdodau lleol hefyd gael adroddiadau gan unigolion gan gynnwys pobl sy'n cael gofal a chymorth, teulu, ffrindiau, eiriolwyr a sefydliadau fel y rheini yn y trydydd sector. Mae'r dangosydd hwn yn cofnodi'r bobl hynny sy'n cael eu cam-drin neu eu hesgeulustod dro ar ôl tro trwy'r flwyddyn. | |
| Beth yw llwyddiant? | Gostyngiad yn y canrannau dros amser |
| Ffynhonnell y data: | Datganiad data diogelu oedolion awdurdodau lleol |
| Grŵp defnyddwyr: | Pob oedolyn (y data ar gael o 2017-18) |
| Lefel ddaearyddol: | Awdurdodau lleol |

# Addysg, hyfforddiant a gweithgareddau hamdden

| Canlyniadau cyfnod allweddol 4 ar gyfer plant mewn angen | |
|---|---|
| Cyfnod Allweddol 4 yw'r ddwy flynedd o addysg ysgol sy'n cynnwys TGAU ac arholiadau eraill mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru a Lloegr pan fo'r disgyblion rhwng 14 a 16 oed. Mae'n rhaid i wasanaethau gofal a chymorth annog plant i gymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant a gweithgareddau hamdden. Mae'r dangosydd hwn yn mesur cyrhaeddiad i'r lefel ddisgwyliedig mewn Mathemateg, Gwyddoniaeth ac un ai Gymraeg neu Saesneg mamiaith, a bydd yn mesur a yw plant mewn angen yn dysgu ac yn datblygu i'w llawn botensial cystal â phlant eraill yng Nghymru. | |
| Beth yw llwyddiant? | Cynnydd yn y cyrhaeddiad dros amser |
| Ffynhonnell y data: | Cyfrifiad Plant mewn Angen awdurdodau lleol (a fydd yn cael ei alw'n Gyfrifiad Plant sy'n Cael Gofal a Chymorth o 2016-17 ymlaen) |
| Grŵp defnyddwyr: | Plant mewn angen (a fydd yn newid i blant sydd â chynllun gofal a chymorth yn 2016-17) |
| Lefel ddaearyddol: | Awdurdodau lleol (cyfartaleddau 3 blynedd) |

| Canlyniadau cyfnod allweddol 2 ar gyfer plant mewn angen | |
|---|---|
| Cyfnod Allweddol 2 yw'r pedair blynedd o addysg mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru a Lloegr pan fo'r disgyblion rhwng 7 ac 11 oed. Mae'n rhaid i wasanaethau gofal a chymorth annog plant i gymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant a gweithgareddau hamdden. Mae'r dangosydd hwn yn mesur cyrhaeddiad i'r lefel ddisgwyliedig mewn Mathemateg, Gwyddoniaeth ac un ai Gymraeg neu Saesneg mamiaith, a bydd yn mesur a yw plant mewn angen yn dysgu ac yn datblygu i'w llawn botensial cystal â phlant eraill yng Nghymru. | |
| Beth yw llwyddiant? | Cynnydd yn y cyrhaeddiad dros amser |
| Ffynhonnell y data: | Cyfrifiad Plant mewn Angen awdurdodau lleol (a fydd yn cael ei alw'n Gyfrifiad Plant sy'n Cael Gofal a Chymorth o 2016-17 ymlaen) |
| Grŵp defnyddwyr: | Plant mewn Angen (a fydd yn newid i blant sydd â chynllun gofal a chymorth yn 2016-17) |
| Lefel ddaearyddol: | Awdurdodau lleol (cyfartaleddau 3 blynedd) |

| Cyfraddau presenoldeb plant mewn angen yn yr ysgol | |
|---|---|
| Gall presenoldeb yn yr ysgol effeithio'n sylweddol ar gyrhaeddiad plant o ran deilliannau addysgol. Mae'r dangosydd yn nodi a yw plant mewn angen yn bresennol yn yr ysgol ac felly yn gallu cael y budd mwyaf o'u haddysg. Bydd modd asesu a oes gwahaniaeth yn y cyfraddau presenoldeb rhwng plant mewn angen a'r holl blant yng Nghymru. | |
| Beth yw llwyddiant? | Cynnydd yn y cyfraddau dros amser |
| Ffynhonnell y data: | Cyfrifiad Plant mewn Angen awdurdodau lleol (a fydd yn cael ei alw'n Gyfrifiad Plant sy'n Cael Gofal a Chymorth o 2016-17 ymlaen) |
| Grŵp defnyddwyr: | Plant mewn Angen (a fydd yn newid i blant sydd â chynllun gofal a chymorth yn 2016-17) |
| Lefel ddaearyddol: | Awdurdodau lleol |

| Deilliannau dysgwyr yn y sectorau addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion yn y gymuned | |
|---|---|
| Dylai pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth allu dysgu a datblygu i'w llawn botensial. Nid yw hyn yn gyfyngedig i blant a'u haddysg. Mae datblygu gwybodaeth a sgiliau trwy gyfleoedd dysgu i oedolion yn gallu rhoi annibyniaeth, rhagor o hyder a gwella'r dewis o yrfaoedd sydd ar gael iddynt. Mae'r dangosydd hwn yn edrych ar y gyfran o'r holl weithgareddau dysgu i oedolion sydd wedi'u cwblhau a'u cyflawni. | |
| Beth yw llwyddiant? | Cynnydd yn y cyrhaeddiad dros amser |
| Ffynhonnell y data: | Casglwyd y data gan ddarparwyr dysgu ledled Cymru trwy Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru |
| Grŵp defnyddwyr: | Pob oedolyn sy'n ddysgwr |
| Lefel ddaearyddol: | Cymru |

| Y sgôr pwyntiau cymwysterau allanol ar gyfartaledd ar gyfer plant 16 oed sy'n derbyn gofal mewn unrhyw sefydliad addysg a gynhelir gan awdurdod addysg lleol | |
|---|---|
| Pan gaiff plentyn ei roi mewn gofal, mae gan yr awdurdod ddyletswydd gyfreithiol leol fel rhiant corfforaethol i ddiogelu a hyrwyddo'u lles. Mae hyn yn cynnwys ymateb i angen y plentyn i fod yn iach a chefnogi cyrhaeddiad addysgol y plentyn. Mae hyn yn elfen bwysig o ddatblygiad pob plentyn i'w helpu i gyflawni ei botensial addysgol a symud ymlaen i addysg uwch ac addysg bellach. Mae'r dangosydd hwn yn monitro cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yn 16 oed. Mae'r dangosydd hwn yn ehangach na'r cyrhaeddiad yng nghyfnod allweddol 4 gan ei fod yn cynnwys yr holl gymwysterau allanol. | |
| Beth yw llwyddiant? | Cynnydd yn y sgoriau dros amser |
| Ffynhonnell y data: | Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal awdurdodau lleol |
| Grŵp defnyddwyr: | Plant sy'n derbyn Gofal |
| Lefel ddaearyddol: | Awdurdodau lleol |

| Canran yr oedolion rhwng 16 a 64 oed sydd ag o leiaf un cymhwyster | |
|---|---|
| Gall sgiliau addysg sylfaenol fel darllen, ysgrifennu a mathemateg effeithio'n fawr ar fywydau beunyddiol pobl, o ddeall biliau, ffurflenni a dogfennau i arwain plant trwy addysg. Gall cymwysterau hefyd effeithio ar allu unigolyn i gael swydd a'i chadw, a gall cael incwm rheolaidd ac aros allan o dlodi effeithio'n sylweddol ar iechyd a llesiant pobl. Mae'r dangosydd hwn yn edrych ar y canran o oedolion (16-64 oed) sydd ag o leiaf un cymhwyster, i fonitro cyrhaeddiad addysgol oedolion yng Nghymru. | |
| Beth yw llwyddiant? | Cynnydd yn y canrannau dros amser |
| Ffynhonnell y data: | Yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, y Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| Grŵp defnyddwyr: | Pob oedolyn rhwng 16-64 |
| Lefel ddaearyddol: | Awdurdodau lleol |

| Canran y plant mewn angen sydd wedi cyflawni'r lefel ddysgu ddisgwyliedig, neu uwch, ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen | |
|---|---|
| Y Cyfnod Sylfaen yw'r cwricwlwm statudol ar gyfer yr holl blant rhwng tair a saith mlwydd oed yng Nghymru. Mae'n helpu plant i ddatblygu a chael y sgiliau hanfodol er mwyn cael y sylfaen orau posibl ar gyfer eu twf a'u datblygiad yn y dyfodol. Mae'r dangosydd hwn yn asesu deilliannau plentyn o ran ei ddatblygiad personol a chymdeithasol, ei lesiant a'i iaith, ei lythrennedd a'i sgiliau cyfathrebu yn Gymraeg neu yn Saesneg a'i ddatblygiad mathemategol. Bydd yn bosibl asesu a oes gwahaniaeth yn yr hyn y llwyddwyd i'w ddysgu rhwng plant mewn angen a'r holl blant yng Nghymru. | |
| Beth yw llwyddiant? | Cynnydd yn y canrannau dros amser |
| Ffynhonnell y data: | Cyfrifiad Plant mewn Angen awdurdodau lleol (a fydd yn cael ei alw'n Gyfrifiad Plant sy'n Cael Gofal a Chymorth o 2016-17 ymlaen) |
| Grŵp defnyddwyr: | Plant mewn Angen (a fydd yn newid i blant sydd â chynllun gofal a chymorth yn 2016-17) |
| Lefel ddaearyddol: | Awdurdodau lleol |

| Canran y bobl sy'n adrodd eu bod yn gallu gwneud yr hyn sy'n bwysig iddynt | |
|---|---|
| Mae'n rhaid i bobl allu cyflawni'u canlyniadau llesiant eu hunain a pharhau i wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt er mwyn bod yn annibynnol. Mae'n rhaid ystyried amgylchiadau unigol pobl; mae'n rhaid i bobl wybod beth sydd orau ar eu cyfer, ac mae'n rhaid i'w barn, eu dymuniadau a'u teimladau gael eu hystyried. Diben y dangosydd hwn yw deall a yw pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth yn teimlo eu bod yn gallu gwneud pethau sy'n bwysig iddynt. Bydd modd asesu a oes gwahaniaeth yn y canlyniadau rhwng pobl sydd wedi cael gofal a chymorth a gofalwyr sydd wedi cael cymorth yn y 12 mis diwethaf a'r rheini sydd heb gael gwasanaethau gofal a chymorth. | |
| Beth yw llwyddiant? | Cynnydd yn y canrannau dros amser |
| Ffynhonnell y data: | Arolwg Cenedlaethol Cymru |
| Grŵp defnyddwyr: | Pobl sydd wedi cael gofal a chymorth a gofalwyr sydd wedi cael cymorth (16 oed a hŷn) |
| Lefel ddaearyddol: | Cymru |

# Perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol

| Canran y bobl sy'n teimlo eu bod nhw'n perthyn i'w hardal leol | |
|---|---|
| Gall meddu ar ymdeimlad o berthyn i gymuned ehangach wella hyder, hunanwerth, iechyd a hapusrwydd pobl. Mae'r dangosydd hwn yn cofnodi gwerthusiad pobl o ran a ydynt yn teimlo eu bod yn rhan o'u cymuned leol (bydd pobl yn penderfynu beth yw ystyr hyn iddynt yn bersonol). Bydd modd asesu a oes gwahaniaeth yn y canlyniadau rhwng pobl sydd wedi cael gofal a chymorth a gofalwyr sydd wedi cael cymorth yn y 12 mis diwethaf a'r rheini sydd heb gael gwasanaethau gofal a chymorth. | |
| Beth yw llwyddiant? | Cynnydd yn y canrannau dros amser |
| Ffynhonnell y data: | Arolwg Cenedlaethol Cymru |
| Grŵp defnyddwyr: | Pobl sydd wedi cael gofal a chymorth a gofalwyr sydd wedi cael cymorth (16 oed a hŷn) |
| Lefel ddaearyddol: | Cymru |
| Rhennir â: | Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd<br>Dangosyddion canlyniadau cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) |

| Canran y bobl sy'n teimlo bod eu hardal leol yn rhywle lle mae pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda | |
|---|---|
| Mae cyd-dynnu'n dda â phobl yn datblygu ymdeimlad o gymuned, a gall effeithio ar a yw unigolyn yn teimlo'n ddiogel yn ei gymuned. Gall hefyd leihau teimladau o arwahanrwydd trwy alluogi pobl i ymgysylltu â'i gilydd. Mae'r dangosydd hwn yn cofnodi gwerthusiad pobl ynghylch a yw pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda yn eu hardal leol. Bydd modd asesu a oes gwahaniaeth yn y canlyniadau rhwng pobl sydd wedi cael gofal a chymorth a gofalwyr sydd wedi cael cymorth yn y 12 mis diwethaf a'r rheini sydd heb gael gwasanaethau gofal a chymorth. | |
| Beth yw llwyddiant? | Cynnydd yn y canrannau dros amser |
| Ffynhonnell y data: | Arolwg Cenedlaethol Cymru |
| Grŵp defnyddwyr: | Pobl sydd wedi cael gofal a chymorth a gofalwyr sydd wedi cael cymorth (16 oed a hŷn) |
| Lefel ddaearyddol: | Cymru |
| Rhennir â: | Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd<br>Dangosyddion canlyniadau cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) |

| Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn teimlo'n unig yn gyffredinol, yn emosiynol ac yn gymdeithasol | |
|---|---|
| Mae teimlo'n unig yn ddangosydd o lesiant cymdeithasol a phrofwyd hefyd ei fod yn effeithio ar iechyd unigolyn. Nid yn unig y mae rhwydweithiau cymdeithasol a chyfeillgarwch yn effeithio ar leihau'r risg o farwolaeth neu o ddatblygu clefydau penodol, maent hefyd yn helpu unigolion i wella pan maent yn sâl. Mae ymchwil academaidd yn nodi'n glir bod atal a lleddfu teimladau o unigrwydd yn hanfodol i alluogi pobl hŷn i barhau mor annibynnol â phosibl. Mae'r dangosydd hwn yn monitro a yw pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth yn teimlo'n unig yn emosiynol ac yn gymdeithasol. Bydd modd asesu a oes gwahaniaeth yn y canlyniadau rhwng pobl sydd wedi cael gofal a chymorth a gofalwyr sydd wedi cael cymorth yn y 12 mis diwethaf a'r rheini sydd heb gael gwasanaethau gofal a chymorth. | |
| Beth yw llwyddiant? | Cynnydd yn y canrannau dros amser |
| Ffynhonnell y data: | Arolwg Cenedlaethol Cymru |
| Grŵp defnyddwyr: | Pobl sydd wedi cael gofal a chymorth a gofalwyr sydd wedi cael cymorth (16 oed a hŷn) |
| Grŵp defnyddwyr: | Cymru |
| Rhennir â: | Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd<br>Dangosyddion canlyniadau cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) |

| Canran y bobl sy'n meddwl bod pobl yn eu hardal leol yn parchu ac yn ystyried ei gilydd | |
|---|---|
| Gall cael eich parchu a'ch ystyried yn y gymuned ehangach effeithio ar a yw unigolyn yn teimlo'n ddiogel yn ei gymuned. Gall hefyd leihau teimladau o arwahanrwydd trwy ganiatáu i bobl ymgysylltu â'i gilydd. Gall cael eich parchu hefyd wella teimladau pobl o'u gwerth eu hunain. Mae'r dangosydd hwn yn mesur gwerthusiad pobl ynghylch a yw pobl yn eu hardal leol yn parchu ac yn ystyried ei gilydd. Bydd modd asesu a oes gwahaniaeth yn y canlyniadau rhwng pobl sydd wedi cael gofal a chymorth a gofalwyr sydd wedi cael cymorth yn y 12 mis diwethaf a'r rheini sydd heb gael gwasanaethau gofal a chymorth. | |
| Beth yw llwyddiant? | Cynnydd yn y canrannau dros amser |
| Ffynhonnell y data: | Arolwg Cenedlaethol Cymru |
| Grŵp defnyddwyr: | Pobl sydd wedi cael gofal a chymorth a gofalwyr sydd wedi cael cymorth (16 oed a hŷn) |
| Lefel ddaearyddol: | Cymru |
| Rhennir â: | Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd<br>Dangosyddion canlyniadau cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) |

# Cyfraniad a wneir at y gymdeithas

## Canran y bobl sy'n adrodd bod y pethau a wnânt mewn bywyd yn werth chweil

Gall teimlo'n werth chweil helpu pobl i gymryd gofal gwell o'u hiechyd corfforol, meddyliol ac emosiynol. Gall hefyd helpu pobl i gymryd camau cadarnhaol tuag at gyflawni eu canlyniadau llesiant personol. Gall ymdeimlad isel o werth effeithio ar iechyd meddwl, ymddygiadau a sut y mae pobl yn ymwneud ag eraill, gan gynnwys eu ffrindiau a'u teulu. Mae'r dangosydd hwn yn cofnodi gwerthusiad pobl o'u hunanwerth. Bydd modd asesu a oes gwahaniaeth yn y canlyniadau rhwng pobl sydd wedi cael gofal a chymorth a gofalwyr sydd wedi cael cymorth yn y 12 mis diwethaf a'r rheini sydd heb gael gwasanaethau gofal a chymorth.

| | |
|---|---|
| Beth yw llwyddiant? | Cynnydd yn y canrannau dros amser |
| Ffynhonnell y data: | Arolwg Cenedlaethol Cymru |
| Grŵp defnyddwyr: | Pobl sydd wedi cael gofal a chymorth a gofalwyr sydd wedi cael cymorth (16 oed a hŷn) |
| Lefel ddaearyddol: | Cymru |

## Canran y bobl sy'n gwirfoddoli

Mae'r dangosydd hwn yn monitro canran y bobl sy'n dweud eu bod wedi gwirfoddoli mewn nifer o weithgareddau yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae gwirfoddoli'n ffordd i bobl allu ymgysylltu â'u cymuned leol a chyfrannu ati. Gall gwirfoddoli arwain at lawer o fanteision i bobl, gan gynnwys datblygu sgiliau newydd, cynyddu eu cyfle i gymdeithasu ac ymdeimlad o gael eu gwerthfawrogi. Bydd modd asesu a oes gwahaniaeth yn y canlyniadau rhwng pobl sydd wedi cael gofal a chymorth a gofalwyr sydd wedi cael cymorth yn y 12 mis diwethaf a'r rheini sydd heb gael gwasanaethau gofal a chymorth.

| | |
|---|---|
| Beth yw llwyddiant? | Cynnydd yn y canrannau dros amser |
| Ffynhonnell y data: | Arolwg Cenedlaethol Cymru |
| Grŵp defnyddwyr: | Pobl sydd wedi cael gofal a chymorth a gofalwyr sydd wedi cael cymorth (16 oed a hŷn) |
| Lefel ddaearyddol: | Cymru |
| Rhennir â: | Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd<br>Dangosyddion canlyniadau cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) |

| Canran y sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig gweithgareddau i'r gymuned neu i bobl ifanc | |
|---|---|
| Mae'r trydydd sector yn ategu gwasanaethau statudol trwy gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau di-dor, a darparu gwasanaethau er budd pobl a chymunedau yng Nghymru. Mae'r dangosydd hwn yn mesur canran y sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig gweithgareddau i'r gymuned leol ac i bobl ifanc. Mae gweithgareddau cymunedol yn cynnwys grwpiau'n gweithio i adfywio eu cymunedau lleol, gwella mynediad lleol at wasanaethau, cylchlythyrau cymunedol a rhaglenni datblygu. Mae gweithgareddau i bobl ifanc yn cynnwys grwpiau sy'n ymgysylltu â phobl ifanc, canolfannau ieuenctid, clybiau ffermwyr ifanc, sefydliadau mewn gwisg unffurf a grwpiau diwylliannol. Y bwriad yw y bydd gweithredu dyletswydd adran 16 yn y Ddeddf i hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau dan arweiniad y defnyddwyr a'r trydydd sector yn cynyddu amrywiaeth y ddarpariaeth sydd ar gael, gan gydnabod nad oes dull sy'n addas i bawb wrth wneud hynny. Mae hefyd wedi'i anelu at hwyluso amgylchedd lle bo modd i bobl gefnogi'u hunain yn well, lle y bo'n briodol. | |
| Beth yw llwyddiant? | Cynnydd yn y canrannau dros amser |
| Ffynhonnell y data: | Adnodd Ystadegol Trydydd Sector Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru |
| Grŵp defnyddwyr: | Pawb yng Nghymru |
| Lefel ddaearyddol: | Awdurdodau lleol |

| Canran y sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig gwasanaethau i'r anabl | |
|---|---|
| Mae'r trydydd sector yn ategu gwasanaethau statudol trwy gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau di-dor, a darparu gwasanaethau er budd pobl a chymunedau yng Nghymru. Mae'r dangosydd hwn yn mesur canran y sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig gwasanaethau i'r anabl, sy'n darparu cymorth i bobl anabl a'u teuluoedd ac yn helpu i roi'r grym i bobl anabl fyw yn y gymuned. Y bwriad yw y bydd gweithredu dyletswydd adran 16 yn y Ddeddf i hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau dan arweiniad y defnyddwyr a'r trydydd sector yn cynyddu amrywiaeth y ddarpariaeth sydd ar gael, gan gydnabod nad oes dull sy'n addas i bawb wrth wneud hynny. Mae hefyd wedi'i anelu at hwyluso amgylchedd lle bo modd i bobl gefnogi'u hunain yn well, lle y bo'n briodol. | |
| Beth yw llwyddiant? | Cynnydd yn y canrannau dros amser |
| Ffynhonnell y data: | Adnodd Ystadegol Trydydd Sector Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru |
| Grŵp defnyddwyr: | Pawb yng Nghymru |
| Lefel ddaearyddol: | Awdurdodau lleol |

# Llesiant cymdeithasol ac economaidd

| Cyfradd cyflogaeth oedolion 50 oed a hŷn | |
|---|---|
| Gall pobl hŷn wynebu nifer o rwystrau i gyflogaeth, trwy faterion iechyd neu feddu ar sgiliau nad ydynt yn adlewyrchu'r amgylchedd gweithio presennol. Bydd helpu pobl hŷn i aros mewn gwaith yn sicrhau y byddant yn gallu parhau i chwarae rôl weithredol yn y gymuned a byw bywydau mor iach, annibynnol a chyflawn â phosibl. Gall hefyd gynyddu mynediad pobl hŷn at wasanaethau. Mae'r dangosydd hwn yn edrych i weld a yw pobl 50 oed a hŷn mewn gwaith. | |
| Beth yw llwyddiant? | Cynnydd yn y cyfraddau dros amser |
| Ffynhonnell y data: | Yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, y Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| Grŵp defnyddwyr: | Pobl 50 oed a hŷn |
| Lefel ddaearyddol: | Awdurdodau lleol |

| Cyfradd cyflogaeth oedolion sydd rhwng 16 a 64 oed ac sydd ag anabledd craidd neu anabledd sy'n cyfyngu ar waith dan y Ddeddf Cydraddoldeb | |
|---|---|
| Ystyrir bod cyflogaeth ddiogel o ansawdd yn hanfodol i lesiant economaidd, corfforol a meddyliol pobl. Bydd dileu'r rhwystrau i bobl anabl yn helpu i sicrhau bod gan bobl anabl yr un mynediad at wasanaethau a chyfleoedd â gweddill y gymdeithas. Mae'r dangosydd hwn yn edrych i weld a yw pobl anabl mewn gwaith. | |
| Beth yw llwyddiant? | Cynnydd yn y cyfraddau dros amser |
| Ffynhonnell y data: | Yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, y Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| Grŵp defnyddwyr: | Oedolion sydd rhwng 16 a 64 oed sydd ag anabledd craidd neu anabledd sy'n cyfyngu ar waith dan y Ddeddf Cydraddoldeb |
| Lefel ddaearyddol: | Awdurdodau lleol |

| Bwlch o ran disgwyliad oes rhwng y rhai sydd leiaf a mwyaf difreintiedig | |
|---|---|
| Gall amodau cymdeithasol ac economaidd yr ardal lle mae pobl yn cael eu geni neu eu magu effeithio'n sylweddol ar eu hiechyd a'u llesiant. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos plant sydd angen gofal a chymorth a phlant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol, gan eu bod nhw'n fwy tebygol o fyw yn rhannau mwyaf difreintiedig Cymru. Mae'r dangosydd hwn yn monitro a oes gwahaniaeth rhwng disgwyliad oes pobl sy'n byw yn y mannau lleiaf a mwyaf difreintiedig yng Nghymru. | |
| Beth yw llwyddiant? | Gostyngiad yn y blynyddoedd dros amser |
| Ffynhonnell y data: | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru |
| Grŵp defnyddwyr: | Pawb yng Nghymru |
| Lefel ddaearyddol: | Cymru |
| Rhennir â: | Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd |

| Canran y bobl ifanc 19-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) | |
|---|---|
| Mae'r dangosydd hwn yn nodi a yw pobl 19-24 oed yn cymryd rhan mewn rhyw fath o hyfforddiant, addysg bellach neu uwch, neu mewn cyflogaeth gynaliadwy. Gall cyfraddau NEET uchel arwain at amrywiaeth o ganlyniadau negyddol i bobl ifanc ac ar y gymdeithas yn ehangach, er enghraifft trwy gynnydd mewn problemau iechyd cyffredinol neu gyfraddau troseddau. | |
| Beth yw llwyddiant? | Gostyngiad yn y canrannau dros amser |
| Ffynhonnell y data: | Caiff amcangyfrif Cymru ei gyfrifo gan Lywodraeth Cymru trwy ffynonellau data addysg gweinyddol, data'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ac amcangyfrifon poblogaeth ac amcanestyniadau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| Grŵp defnyddwyr: | Pawb rhwng 19-24 oed |
| Lefel ddaearyddol: | Cymru |
| Rhennir â: | Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd<br>Dangosyddion canlyniadau cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) |

| Canran yr aelwydydd sy'n ddifreintiedig yn faterol | |
|---|---|
| Mae'r dangosydd hwn yn monitro a yw aelwydydd yng Nghymru yn ddifreintiedig yn faterol (hynny yw, a ydynt yn gallu fforddio cadw'r tŷ yn ddigon cynnes, cynilo'n rheolaidd, neu fynd ar wyliau unwaith y flwyddyn). Mae hyn yn fesur cyffredinol o dlodi yn y DU a daw o'r Arolwg o Adnoddau Teulu, ac mae wedi'i gynnwys yn Arolwg Cenedlaethol Cymru. Bydd modd asesu a oes gwahaniaeth yn y canlyniadau rhwng yr aelwydydd o bobl sydd wedi cael gofal a chymorth a gofalwyr sydd wedi cael cymorth yn y 12 mis diwethaf a'r rheini sydd heb gael gwasanaethau gofal a chymorth. | |
| Beth yw llwyddiant? | Gostyngiad yn y canrannau dros amser |
| Ffynhonnell y data: | Arolwg Cenedlaethol Cymru |
| Grŵp defnyddwyr: | Pobl sydd wedi cael gofal a chymorth a gofalwyr sydd wedi cael cymorth (16 oed a hŷn) |
| Lefel ddaearyddol: | Cymru |
| Rhennir â: | Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd<br>Dangosyddion canlyniadau cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) |

# Addasrwydd llety preswyl

| Canran y bobl sy'n dweud bod eu llety yn addas i'w hanghenion | |
|---|---|
| Mae lle mae pobl yn byw yn effeithio'n sylweddol ar eu llesiant, yn enwedig mewn perthynas â darparu gofal a chymorth. Mae'r dangosydd hwn yn cynnwys gwerthusiad pobl o ran a ydynt yn teimlo bod y lle y maent yn byw ynddo yn addas i'w hanghenion (bydd pobl yn penderfynu beth yw ystyr hyn iddynt yn bersonol). Dylai pobl fyw mewn lle sy'n eu cefnogi orau i sicrhau eu llesiant (gyda gofal a chymorth os oes angen). | |
| Beth yw llwyddiant? | Cynnydd yn y canrannau dros amser |
| Ffynhonnell y data: | Arolwg Cenedlaethol Cymru |
| Grŵp defnyddwyr: | Pobl sydd wedi cael gofal a chymorth a gofalwyr sydd wedi cael cymorth (16 oed a hŷn) |
| Lefel ddaearyddol: | Cymru |

| Canran yr aelwydydd digartref sy'n cynnwys plant dibynnol neu fenyw sy'n feichiog | |
|---|---|
| Gall nifer o ffactorau personol a chymdeithasol gwahanol gyfrannu at bobl yn dod yn ddigartref. Gall digartrefedd achosi aflonyddwch a thrawma mawr i unrhyw un sy'n ymwneud â hyn, ond mae plant yn enwedig yn agored iawn i effeithiau digartrefedd, gan golli ysgol yn aml iawn. Yn aml, mae'n rhaid i wasanaethau tai a gwasanaethau gofal a chymorth gydweithio i ddarparu cymorth digonol i deuluoedd digartref.<br>Yn ystod 2014-15, i'r teuluoedd hynny y derbyniwyd eu bod yn ddigartref, yr angen mwyaf cyffredinol o ran blaenoriaeth a nodwyd oedd bod plant dibynnol neu fenyw sy'n feichiog yn rhan o'r teulu. Mae'r dangosydd hwn yn monitro'r aelwydydd hynny y derbyniwyd eu bod yn ddigartref a oedd yn cynnwys plant dibynnol neu fenyw sy'n feichiog. | |
| Beth yw llwyddiant? | Gostyngiad yn y canrannau dros amser |
| Ffynhonnell y data: | Casgliadau data digartrefedd awdurdodau lleol |
| Grŵp defnyddwyr: | Aelwydydd y derbyniwyd eu bod yn ddigartref yng Nghymru |
| Lefel ddaearyddol: | Awdurdodau lleol |

| Canran y sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig gweithgareddau tai | |
|---|---|
| Mae'r trydydd sector yn ategu gwasanaethau statudol trwy gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau di-dor, a darparu gwasanaethau er budd pobl a chymunedau yng Nghymru. Mae'r dangosydd hwn yn mesur canran y sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig gweithgareddau tai, fel prosiectau digartrefedd, cynlluniau gofal a thrwsio, gwasanaethau cyngor ar dai a chymdeithasau i denantiaid a phreswylwyr. Y bwriad yw y bydd gweithredu dyletswydd adran 16 yn y Ddeddf i hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau dan arweiniad y defnyddwyr a'r trydydd sector yn cynyddu amrywiaeth y ddarpariaeth sydd ar gael, gan gydnabod nad oes dull sy'n addas i bawb wrth wneud hynny. Mae hefyd wedi'i anelu at hwyluso amgylchedd lle bo modd i bobl gefnogi'u hunain yn well, lle y bo'n briodol. | |
| Beth yw llwyddiant? | Cynnydd yn y canrannau dros amser |
| Ffynhonnell y data: | Adnodd Ystadegol Trydydd Sector Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru |
| Grŵp defnyddwyr: | Pawb yng Nghymru |
| Lefel ddaearyddol: | Awdurdodau lleol |

| Canran y tai cymdeithasol sy'n cyd-fynd â Safon Ansawdd Tai Cymru | |
|---|---|
| Dylai pobl ddisgwyl byw mewn cartref sy'n eu helpu orau i sicrhau eu llesiant. Dangosodd Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014-15 fod pobl a gafodd wasanaethau gofal a chymorth ddwywaith yn fwy tebygol o fyw mewn tai cymdeithasol o gymharu â phobl nad oedd wedi cael gwasanaethau gofal a chymorth. Felly, gall ansawdd tai cymdeithasol yng Nghymru effeithio'n fawr ar bobl sy'n cael gwasanaethau gofal a chymorth. Mae'r dangosydd hwn yn mesur canran y tai cymdeithasol yng Nghymru a oedd yn bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC). Cyflwynwyd SATC yn gyntaf yn 2002 â'i bwriad yw sicrhau bod yr holl anheddau o ansawdd da a'u bod yn addas i anghenion preswylwyr presennol a'r dyfodol. | |
| Beth yw llwyddiant? | Cynnydd yn y canrannau dros amser |
| Ffynhonnell y data: | Casgliad data Safon Ansawdd Tai Cymru a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru gan bob landlord cymdeithasol (awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig) |
| Grŵp defnyddwyr: | Stoc tai cymdeithasol yng Nghymru |
| Lefel ddaearyddol: | Awdurdodau lleol |